6ED O FEHEFIN

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

**Llwyddiant Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**

Llongyfarchiadau mawr i bawb wnaeth gystadlu wythnos diwethaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Margam. Cawsom wythnos hynod o lwyddiannus fel ysgol ac roedd yn hyfryd i weld cymaint o ddisgyblion Ysgol Treganna yn cystadlu ar lwyfan y brifwyl. Da iawn i'r parti Cerdd Dant a'r Gân Actol am ennill y wobr gyntaf, i Caio Ifan am ennill yr ail wobr yn y ddawns stepio bl 9 ac iau ac i Morus am ennill y drydedd wobr yn yr unawd Cerdd Dant bl 6 ac iau. Rydym yn hynod o falch o bawb wnaeth gystadlu a diolch i'r holl staff wnaeth baratoi'r disgyblion a phawb ddaeth i gefnogi wythnos diwethaf. Gwaith tîm ar ei orau! Diolch i chi fel rhieni ac rydym fel ysgol wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaus.

**Cyngerdd Dathlu Doniau**

Nos Iau, y 19eg o Fehefin am 6.30yp bydd cyngerdd Dathlu Doniau yn neuadd yr ysgol.Bydd y gyngerdd yn gyfle i ni ddathlu llwyddiant ein disgyblion yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Yn y gyngerdd bydd y ddawns amlgyfrwng, y Gân Actol, y parti Cerdd Dant, yr ensemble lleisiol, parti Dawnsio Gwerin bl 3 a 4 a pharti deulais blwyddyn 6 yn perfformio. Yn ogystal, bydd Heti, Caio, Nel a Teifi a Morus yn perfformio. Bydd hefyd cyfle i glywed blwyddyn 2 yn perfformio'r caneuon bydd y criw yn canu yn Nhafwyl.Bydd y tocynnau, £3 yr un, ar werth ar Parent Pay ddydd Llun.

**Tafwyl**

Dydd Sul, y 15fed o Fehefin bydd blwyddyn 2 yn perfformio yn Nhafwyl am 3.15 yp. Cofiwch ddod draw i gefnogi a diolch i'r staff sydd wrthi yn paratoi'r plant ar gyfer y perfformiad.

**Bws Beic**

Diolch unwaith eto i'r gwirfoddolwyr, yn cynnwys rhieni a staff sy'n cynnal ein Bws Beic. Cofiwch fod cyfle i bawb ymuno ac mae dyddiadau'r bws Beic ar ein cyfrif

## Calendr

**Tafwyl**
**14/6/25 a 15/6/25**

**Cyngerdd Dathlu Doniau**
**19/6/25**

# Dyddiadau HMS 25/26

Dyma ddyddiadau HMS y flwyddyn academaidd 25/26.

| Dydd Llun | 1.9.25 |
|---|---|
| Dydd Mawrth | **2.9.25** |
| Dydd Gwener | **24.10.25** |
| Dydd Llun | **5.1.26** |
| Dydd Gwener | **22.5.26** |
| Dydd Llun | **20.7.26** |

## Makaton

Dyma arwydd Makaton yr wythnos. Rydym yn annog pawb yn yr ysgol i ymarfer a defnyddio'r arwydd yn ystod yr wythnos. Diolch i ddisgyblion y dosbarth Meithrin am ddangos i ni sut i wneud yr arwyddion yma.




## Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni 23-24

Mae Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni 23-24 ar ein gwefan ysgol yn yr adran "Amdanom ni", "Y Llywodraethwyr".

Diolch yn fawr i'r llywodraethwyr am eu cefnogaeth a'r cymorth maent yn rhoi i'r ysgol.

## Cymraeg yn 1af

Mae Cymreictod, yr iaith, a'r diwylliant Cymreig yn rhan annatod o'n gweledigaeth ac mae gennym strategaeth newydd yn yr ysgol i ddathlu ein hiaith!

Rydym yn annog pawb, y disgyblion, y staff cinio, chi fel rhieni a'r gymuned ehangach i ddefnyddio "Cymraeg yn 1af".

Bydd y Criw Cymraeg yn arwain ar y prosiect yma er mwyn hyrwyddo ac annog pawb i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

Edrychwn ymlaen at rannu mwy o wybodaeth gyda chi dros yr wythnosau nesaf, ond yn y cyfamser cofiwch "Cymraeg yn 1af"!

## Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**
Rydw i'n hoffi…/Dwi'n hoffi… Dydw i ddim yn hoffi

**Her**
Mae'n well gen i…na

**Testun trafod yr wythnos**
Y peth pwysicaf yn y byd yw…

**Cân yr wythnos**
Eadyth & Endaf - Mwy o gariad

**Idiom yr wythnos**
Bwrw hen wragedd a ffyn

Instagram.